
# Gwobr John Muir a'r Cwricwlwm i Gymru




**Bydd Gwobr John Muir yn eich cynorthwyo i ddatblygu eich cwricwlwm yn ogystal â chynnig cymorth gyda'r canlynol:**

- Y pedwar diben
- meysydd dysgu a phrofiad
- cydweithio a chynllunio trawsddisgyblaethol

Mae Gwobr John Muir yn annog pobl o bob cefndir i ymwneud gyda, mwynhau a gofalu am leoedd gwyllt. Mae'n addas ar gyfer disgyblion hŷn ysgolion cynradd a thu hwnt. Darllenwch y Llawlyfr Gwobr ar ein gwefan os gwelwch yn dda cyn mynd ati i gynllunio i gymryd rhan.

Nod Ymddiriedolaeth John Muir yw ysbrydoli pobl a chymunedau i elwa ac eirioli dros leoedd gwyllt. Mae prif fenter ymgysylltu'r Ymddiriedolaeth, sef Gwobr John Muir, yn gynllun gwobrwyo amgylcheddol ledled Prydain sy'n canolbwyntio ar leoedd gwyllt.

Mae Gwobr John Muir yn cefnogi cyflawni deilliannau dysgu drwy ddulliau ymarferol, creadigol ac atyniadol sy'n fuddiol i bawb. I gynorthwyo gyda chyflawni'r Cwricwlwm i Gymru, mae'r Wobr yn gweithredu fel fframwaith ar gyfer addysg awyr agored sy'n ennyn diddordeb dysgwyr, yn hybu llesiant unigolion a dinasyddiaeth weithgar. Mae'n helpu gyda threchu'r bwlch cyrhaeddiad gan gynnig profiadau, gwybodaeth a sgiliau sydd eu hangen ar bobl ifanc i ddod o hyd i waith. At hyn, mae hefyd yn clodfori cyrhaeddiad mewn addysg ffurfiol a thu hwnt.

JOHN MUIR TRUST

# Sut gallai'r Wobr John Muir gynorthwyo gyda'r Cwricwlwm?

Mae'r diagram canlynol yn dangos enghreifftiau o weithgareddau a phynciau sydd wedi cyfrannu tuag at fodloni Heriau Gwobr John Muir ynghlwm â Darganfod, Archwilio, Gwarchod a Rhannu.

Gallai Gwobr John Muir helpu pobl ifanc i "ddeall datblygu gynaliadwy, yr heriau i'r amgylchedd a'r gymdeithas a sut gallan nhw ymwneud gydag a gwneud gwahaniaeth ynghylch y materion hyn gan gefnogi dinasyddiaeth gynaliadwy."

Gallai hefyd feithrin ymdeimlad dilys o gynefin, gan ddysgu mwy am wahanol ddiwylliannau a hanes, sy'n fodd iddyn nhw ddatblygu ymdeimlad cryf o hunaniaeth unigol a deall sut mae hyn yn gysylltiedig gydag ac yn ffrwyth dylanwadau ehangach.

## Cwricwlwm i Gymru

### Iaith a Llythrennedd

Cyfansoddi cerddi a chaneuon, llunio erthyglau newyddion, llythyrau ymgyrch, cyflwyniadau power point, dysgu geirfa amgylcheddol a natur newydd, ysgrifennu creadigol

### Mathemateg a Rhifedd

Cynllunio a mesur llwybr, sgiliau map, amcangyfrif a mesur pellter ac onglau ac arwynebedd, oedran ac uchder coed, data o arolygon bywyd gwyllt, siartiau cylch a lliwiau mewn natur

### Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Samplu'r pridd, y gadwyn fwyd, milltiroedd bwyd, arolygon llygredd, ymgyrchoedd ysbwriel, bioamrywiaeth, arolwg bywyd gwyllt, ailgylchu, cacennau adar, tarddiad bwyd, gwesty pryfed, blychau adar, ynni amgen, compostio

### Iechyd a Lles

Asesiadau risg, ymwybyddiaeth ofalgar, gweithgareddau synhwyraidd, gweithgareddau anturus, cysylltu gyda natur

### Y Dyniaethau

Effaith gymdeithasol llygredd, ystyried effaith gweithgareddau pobl ar yr amgylchedd, dysgu am werthoedd cadwraeth, gwella tir ysgolion

### Y Celfyddydau Mynegiannol

Cerddoriaeth sydd wedi'i hysbrydoli gan natur, dramâu yn yr awyr agored, celf naturiol, ffotograffiaeth

### Dysgwyr uchelgeisiol, galluog

- ✔ Barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- ✔ yn mwynhau her – gweithgareddau awyr agored a phrofiadau preswyl
- ✔ meddwl yn feirniadol a datrys problemau–materion amgylcheddol
- ✔ dysgu syniadau a chysyniadau mewn cyd-destun bywyd go iawn

### Unigolion iach, hyderus

- ✔ barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- ✔ gymuned – cynnig eu hegni a'u sgiliau er mwyn i bobl eraill elwa
- ✔ cymryd risgiau wedi'u mesur – cyfleoedd unigryw yn yr awyr agored ar gyfer hyn
- ✔ mynegi syniadau ac emosiynau drwy'r her Rhannu
- ✔ cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn tîm a datblygu sgiliau cyfathrebu.

### Cyfranwyr mentrus, creadigol

- ✔ barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- ✔ gwirfoddoli amgylcheddol yn y gymuned – cynnig eu hegni a'u sgiliau er mwyn i bobl eraill elwa
- ✔ cymryd risgiau wedi'u mesur – cyfleoedd unigryw yn yr awyr agored ar gyfer hyn
- ✔ mynegi syniadau ac emosiynau drwy'r her rhannu
- ✔ cyfleoedd ar gyfer gweithio fel tîm a datblygu sgiliau cyfathrebu.

### Dinasyddion egwyddorol, gwybodus

- ✔ Ymchwilio materion cyfoes e.e. colli bioamrywiaeth, newid hinsawdd a llygredd
- ✔ hawliau a chyfrifoldebau drwy'r cod cefn gwlad a pheidio â gadael unrhyw ôl
- ✔ effaith gweithrediadau – cynnal gweithgarwch cadwraeth ymarferol
- ✔ cynaladwyedd y blaned









# Camau Nesaf

## Canfod mwy ar johmuirtrust.org/award lle gallwch wneud y canlynol:

- Lawr lwytho Llawlyfr Gwobr – canllaw manwl ar gyflwyno'r Wobr
- Dod o hyd i syniadau ac adnoddau i'ch ysbrydoli a'ch helpu i gychwyn arni, gan gynnwys ystod o astudiaethau achos yn ymwneud â'r Wobr gan sefydliadau addysg.

I gofrestru ar gyfer y Wobr John Muir, ewch ati i grybwyll eich gweithgareddau yn ein ffurflen gais ar-lein o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn cychwyn arni. Byddwn yn adolygu ac (os yn briodol) yn datblygu eich cynlluniau gyda chi.

### Dysgu Proffesiynol

Does dim angen cyflawni hyfforddiant – mae'r wefan a'r adnoddau'n darparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen i gynnal Gwobr John Muir. Ewch i'n tudalen hyfforddiant i wybod mwy.

## Cysylltu gyda ni

- E-bost: **Award@johnmuirtrust.org**
- Cyfryngau Cymdeithasol: **#JohnMuirAward**, **@JohnMuirTrust**
- Gwelwch ein Cwestiynau Cyffredin
- johnmuirtrust.org/award

Mae'r Ymddiriedolaeth John Muir yn elusen gadwraeth sy'n ymroi i brofi, diogelu ac adfer mannau gwyllt er budd i bawb.

Lluniau: © Phil Hatcher Moore. Darluniau gan Calumma

Mae'r Ymddiriedolaeth John Muir yn gwmni elusennol Albanaidd cyfyngedig trwy warant. (Rhif Elusen. SC002061 Rhif Cwmni. SC081620).
Swyddfa Gofrestredig: Tower House, Station Road, Pitlochry, PH16 5AN

## Llwybr Darparwyr

| | |
|---|---|
| **Meddu ar Aelodaeth Gr^wp dilys gydag Ymddiriedolaeth John Muir.** | Ewch i **johnmuirtrust.org/join** i wybod mwy. |
| **Ffurflen Gais** | Cyflwynwch eich Ffurflen Gais i ymgeisio ar gyfer y Wobr John Muir. |
| **Adolygiad** | Byddwn yn adolygu'ch ffurflen ac, os ydych chi'n bodloni'r meini prawf, byddwn yn cymeradwyo eich. cais. |
| **Cychwyn eich gweith-gareddau** | Unwaith y byddwn ni wedi cymeradwyo eich Ffurflen Gais, gallwch gychwyn arni gydag eich gweithgareddau. |
| **Ffurflen Adolygu** | Pan fyddwch chi wedi cwblhau eich gweithgareddau, cyflwynwch eich Ffurflen Adolygu. |
| **Adolygiad o'r Wobr** | Byddwn yn adolygu eich ffurflen ac, os yw'r meini prawf wedi'i fodloni, yn cymeradwyo eich Gwobr/au. |
| **Cyflwyno Tystysgrifau** | Byddwn yn llunio ac yn anfon eich tystysgrifau digidol. |
| **Dathlu gydag eich grŵp** | Cyflwyno'r tystysgrifau i'ch grŵp. |